OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 No. 1275

Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) 2008

RHAN 1

Cyflwyniad

Dehongli cyffredinol

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "anifail" ("*animal*") yw unrhyw famal;

ystyr "anifeiliaid hela gwyllt" ("*wild game*") yw anifail gwyllt sy'n cael ei hela i'w fwyta gan bobl;

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw arolygydd a benodwyd felly gan Weinidogion Cymru neu gan awdurdod lleol at ddibenion y Rheoliadau hyn neu'r Ddeddf ac, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, mae'n cynnwys arolygydd milfeddygol;

ystyr "arolygydd milfeddygol" ("*veterinary inspector*") yw person a benodwyd yn arolygydd o'r fath gan Weinidogion Cymru at ddibenion y Rheoliadau hyn neu'r Ddeddf;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") mewn perthynas ag ardal yw'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol ar gyfer yr ardal honno;

ystyr "canolfan driniaeth" ("*treatment centre*") yw mangre a ddynodwyd o dan reoliad 5 at ddibenion trin cig o dan un o'r triniaethau a restrir yn Atodlen 2;

mae "cerbyd" ("*vehicle*") yn cynnwys—

(a) trelar, lled-drelar neu rywbeth arall a ddyluniwyd neu a addaswyd i gael ei dynnu gan gerbyd arall;

(b) rhan o unrhyw gerbyd y gellir ei datgysylltu;

(c) cynhwysydd neu strwythur arall a ddyluniwyd neu a addaswyd ar gyfer ei gario ar gerbyd;

ystyr "cig" ("*meat*") yw unrhyw ran o garcas naill ai anifail neu ddofednyn a fwriadwyd ar gyfer ei fwyta gan bobl, ac mae'n cynnwys cynnyrch sy'n deillio o brosesu cig o'r anifail neu'r dofednyn hwnnw neu gynnyrch sy'n deillio o brosesu pellach y cyfryw gynnyrch cig a broseswyd;

ystyr "cigydda" ("*slaughter*") yw lladd ar gyfer cynhyrchu bwyd i'w fwyta gan bobl ond nid yw'n cynnwys lladd anifeiliaid hela gwyllt;

ystyr "clefyd" ("*disease*") yw unrhyw un o'r canlynol: clwy clasurol y moch; clwy Affricanaidd y moch; clefyd pothellog y moch; rinderpest; pla'r defaid a'r geifr, clefyd Newcastle;

ystyr "cyflenwi" ("*supply*") yw cyflenwi i'r defnyddiwr olaf neu i berson sydd wedyn yn cyflenwi i'r defnyddiwr olaf ac mae'n cynnwys llwyth ar gyfer ei werthu;

ystyr "deddfwriaeth clefydau" ("*disease legislation*") yw unrhyw ddeddfwriaeth a restrir yn Atodlen 1;

ystyr "dofednod" ("*poultry*") yw pob rhywogaeth o ddofednod a fegir neu a gedwir mewn caethiwed ar gyfer cynhyrchu cig neu wyau i'w bwyta gan bobl, cynhyrchu cynhyrchion masnachol eraill i'w bwyta gan bobl, ailstocio cyflenwadau o anifeiliaid hela neu at ddibenion unrhyw raglen fridio ar gyfer cynhyrchu'r categorïau hyn o adar;

ystyr "dyddiad perthnasol" ("*relevant date*") yw'r dyddiad y cadarnhawyd bod clefyd mewn mangre heintiedig neu mewn sefydliad neu ddyddiad yr heintiad cynharaf os bydd Gweinidogion Cymru yn pennu dyddiad o'r fath;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**);

ystyr "lladd-dy" ("*slaughterhouse*") yw sefydliad lle y mae cigydda a thrin unrhyw anifail neu ddofednyn yn digwydd;

ystyr "mangre" ("*premises*") yw unrhyw dir, adeilad neu le a ddefnyddir mewn busnes, heblaw lladd-dy neu sefydliad trin anifeiliaid hela;

ystyr "meddiannydd" ("*occupier*"), o ran unrhyw fangre neu sefydliad, yw'r person sydd â gofal am y fangre honno neu'r sefydliad hwnnw;

ystyr "sefydliad" ("*establishment*") yw lladd-dy neu sefydliad trin anifeiliaid hela; ac

ystyr "sefydliad trin anifeiliaid hela" ("*game handling establishment*") yw sefydliad lle y paratoir carcasau anifeiliaid hela gwyllt.

(**1**) 1981, p. 22, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002, p. 42, O.S. 1992/3293, 2003/1734 a 2006/182.